

Cytûn Gwanwyn 2013 Cylchlythyr



Cyfarchion Cristnogol twymgalon i chi wrth i Wyl fawr y Pasg ddynesu. Mae Cytûn wedi mwynhau wythnosau prysur ers cyhoeddi ein cylchlythyr diwethaf. Bu'n gyfnod o weithgaredd, myfyrdod a gweddi, wedi ei ganolbwyntio ar geisio dwyn Cristnigion ynghyd i ddatlu'r undod hwnnw sydd yn rhodd Crist i'r Eglwys. Rydym hefyd yn offrymu gweddiâu dros y Pab Francis ac yn dymuno iddo ef a'r gymuned Gatholig bob bendith.

Bu gweinidogaeth Cytûn ar waith yng nghydestun y byd toredig hwnnw y mae Crist yn ei garu. Mae'n ddiddorol efallai i fyfyrion ar y ffaith, yn ôl Cyfrifiad 2011, yn y rhan honno o Gaerdydd lle y gwelwyd lansiad Gorymdaith Dydd Dewi Sant eleni, bod dros 40% o'r bobl sy'n byw yno wedi nodi nad yr iaith Saesneg oedd eu prif iaith.

Mae hynny yn ein hatgoffa bod ein Cymru fodern yn wahanol mewn sawl ffordd ac yn prysur symud y tu hwynt i ddwyieithrwydd. Eto, mae ganddi'r hyder i adennill atgof diwylliedig cenedlaethol am arweinydd defosiynol o Gristion, Dewi Sant, sydd wedi'n helpu o genhedlaeth i genhedlaeth i ddiffinio pwy yn union ydym ni. Yn ddiweddar, roedd Cytûn, fel sefydliad sydd ar gynydd, yn fodlon derbyn yn aelod, y gymuned Uniongred Ethiopia yng Nghaerdydd. A wnewch chi weddio, os gwelwch yn dda, dros y gymuned Gristnogol newydd hon yn ein plith? Cyrraedd yma fel ffoaduriaid oedd hanes llawer un o'r gymuned.

Yn achos Cytûn, fe ddechreuodd 2013 gyda'i ymrwymiad traddodiadol i weithio ar ran yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn ystod yr Wythnos o Weddi dros Undeb Cristnogol. Cafodd yr eglwys eu hannog i ofyn cwestiwn: beth y mae Duw yn ei ofyn gennym? Seiliwyd y cwestiwn hwn ar ddeunydd wedi ei gasglu ynghyd gan Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr a chan Ffederasiwn Prifysgol Gatholig Holl India a Chyngor Eglwys Cenedlaethol yn India. Roedd yr adnoddau litwrgaidd dwyieithog yn canolbwyntio'n benodol ar yr anghyfiawnder mawr y mae'r Dalits yn ei ddioddef yn India. Mae hi bob amser yn galonogol i weld eglwys trwy Gymru gyfan yn dod ynghyd i addoli ac i fyfyrion yn gynnar bob blwyddyn newydd.

Mae staff Cytûn yn ceisio gwasanaethu'r gymuned Gristnogol ym mhob rhan o Gymru.

Ym mis Ionawr, roedd yn dda cael ymweld â rhai arweinwyr eglwysig yng ngogledd-ddwyrain Cymru a chanolbwyntio ar y gwaith rhanbarthol amhrisiadwy a wna Cytûn. Cafwyd trafodaethau hefyd gyda swyddogion yn ardal Wrecsam ar rai o'r materion sydd efallai yn bryder i Bartneriaeth Mewnffudo Cymru, a sut i sicrhau cynnydd ar wneud Cymru yn Genedl Noddfa. Trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gynghair Efyngyllaidd, mae'n galonogol gweld y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at sefydlu Caerdydd fel Dinas Noddfa.

Gwasanaethodd Cytûn Grist ochr yn ochr â chymunedau ffydd eraill. Roedd hi'n fraint i Cytûn gael bod yn bresennol yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar gyfer seremoni deimladwy iawn i goffáu'r rhai a fu farw yn ystod yr Holocaust arswydus. Eleni, canolbwyntiwyd yn benodol ar brofiadau'r rhai a deithiodd i Gymru fel ffoaduriaid ar y trên kinder.

Fe fu gwaith Cytûn yn yr arena gyhoeddus yn brysur ac amrywiol: gan gynnal trafodaethau gydag Uned dros Gyfraith Cydraddoldeb a Gwell Rheoliad Llywodraeth y DU ynghylch Priodas Un-rhyw, a chynorthwyo eglwys i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Lles Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol ar y Bil sy'n ymwneud â Thrawsblannu Dynol (Cymru).



Yn arwyddocaol, mae Cytûn yn awr wedi rhoi cychwyn ar y dasg o ail-ymweld â'r ddogfen 'Cymru: Cymdeithas Foesol?' gan ofyn i'r eglwys sy'n aelodau enwebu aelodau i weithredu ar gomisiwn a chadw golwg ar y broses. Bydd y comisiwn yn rhoi sylw i'r rhannau dan sylw yn yr adroddiad terfynol. Byddwn yn cysylltu â chi i gyd i adrodd ar y datblygiadau fel y byddant yn digwydd.

Mae nifer o eglwys ac enwadau Cytûn wedi clustnodi materion yn ymwneud â heddych fel blaenoriaeth. Mae bwriad i sefydlu Academi Heddwch ac i gynnal cynhadledd yn ystod yr hydref. Ynglŷn â materion moesol, ni all Cytûn fynegi safbwynt oni bai fod pob un o'r eglwys a'r enwadau sy'n aelodau yn

cytuno. Gallwn danlinellu argyhoeddiadau a cheisio sicrhau bod yr eglwys a'r enwadau'n cydweithio i'r graddau y mae eu hegwyddorion yn caniatáu iddyn nhw wneud hynny.



Parhaodd Cytûn i gynnal ei bartneriaeth ag awdurdodau'r Eisteddfod Genedlaethol ynghylch darparu tocynnau mynediad rhad ac am ddim i'r maes ar gyfer gwasanaeth ar y Sul yn y Prif Bafiliwn. Gellir archebu tocynnau trwy ddefnyddio'n gwefan neu drwy gysylltu â'r swyddfa. Dylai pob cais ein cyrraedd erbyn 30 Mehefin fan bellaf. Mae paratodau ar y gweill ynglŷn â phebyll yr Eglwys ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol 2013, gyda llythyr yn cael ei anfon at arweinwyr yr enwadau yn gofyn am gysylltydd enwadol ym mhob un o'r ardaloedd (Boncath, Llanellwedd a Dinbych). Unwaith yn rhagor, os ydych chi'n byw yn un o'r ardaloedd hyn ac yr hoffech chi fod yn rhan o'r tîmau sy'n paratoi'n lleol ar gyfer y digwyddiadau pwysig hyn, cysylltwch, os gwelwch yn dda, ag Ynry Roberts yn Swyddfa Cytûn (ynryr@cytun.org.uk).

Rydym yn parhau i weddio dros Gomisiwn yr Eglwys Cyfamodol a'i waith, fel y mae'r eglwys hynny sy'n rhan ohono yn parhau i fyfyrion ar y trafodaethau y rhoddwyd cychwyn arnynt yn y Cydgynulliad a drefnwyd gennym. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Rhian Linecar os oes arnoch angen unrhyw fanylion pellach sy'n ymwneud â'r broses, neu ymwelwch â'n gwefan. Gallwch lawr lwytho yr holl ddogfennau.

Gan edrych ymlaen, mae Cytûn wedi paratoi Cynllun Gwaith drafft ar gyfer 2013-14, ac a ddygwyd gerbron y Grŵp Galluogi ym mis Chwefror, ac sydd yn awr yn cael ei gynniig i'r eglwys er derbyn eu sylwadau erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd, a fydd yn cael ei gynnal ar 2 Mai, 2013. Bellach, daeth yn arferiad gan Cytûn i adolygu ei waith yn flynyddol a rhoi cynnig i'r eglwys a'r enwadau sy'n aelodau ohono i ffurfio'r agenda gwaith. Trwy osod y copi drafft o'r Cynllun Gwaith ar ein gwefan, mae Cytûn hefyd yn rhoi tryloywder i'r gymuned Gristnogol ehangach ynghylch ei weithgareddau. Fe welwch fod y Cynllun Gwaith drafft eisoes ar ein gwefan.